# Pam fod Sgiliau Cynaliadwyedd yn Allweddol i Bawb

Cyfweliad gyda Business News Wales 28/05/24

Ian Morgan, Prif Weithredwr CBAC

Helo, Ian Morgan ydw i. Rwy'n Brif Weithredwr CBAC.

Mae ein cymwysterau Cynaliadwyedd yn ymwneud â rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddeall yn well effaith heriau cynaliadwyedd a heriau amgylcheddol arnom fel cenedl ac fel unigolion.

Yr hyn yr ydym wedi ceisio'i wneud gyda'r gyfres hon o gymwysterau yw darparu sylfaen a dealltwriaeth dda o beth yw cynaliadwyedd. Beth mae'n ei olygu a beth yw'r effaith ar ein bywydau bob dydd.

Mae'r cymwysterau ar gael ar ystod o lefelau gwahanol. Mae gennym gymwysterau Mynediad 3 a Mynediad 2 a Lefel 1 a Lefel 2. Mae Lefel 2 yn gyfwerth â chymhwyster TGAU, tra bod Lefel 1, Mynediad 3 a Mynediad 2 ar lefel ychydig yn is ond yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth sylfaenol o ddeunydd y pwnc – dealltwriaeth sylfaenol o'r hyn y mae cynaliadwyedd yn ei olygu iddyn nhw, a sut mae hynny'n effeithio arnyn nhw yn eu bywydau personol eu hunain.

Rwy'n credu y gallai'r gyfres hon o gymwysterau fod yn ddilys i bob dysgwr wrth iddynt symud ymlaen yn eu haddysg. Er mwyn ei roi yng nghyd-destun CBAC fel cyflogwr, mae gennym 480 i 500 o staff. Rydym yn gweithio â miloedd o arholwyr a chymedrolwyr allanol, ac mae'n ddyletswydd arnom ni i gyd fel unigolion i gael gwell dealltwriaeth o gynaliadwyedd a'r heriau yn y byd yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd.

Bydd y cymhwyster hwn ar gael i'r rhai sydd wedi gadael amgylcheddau dysgu traddodiadol hefyd. Cyn belled â bod ganddynt fynediad at ddarparwyr fel Coleg AB neu ddarparwr hyfforddiant, byddent yn gallu sefyll y cymwysterau hyn. Yn amlwg mae'n rhaid i ni roi llwybr iddynt drwy sefydliad sydd wedi'i gymeradwyo i ddarparu'r cymwysterau, ond yn y cyd-destun hwnnw, byddai unrhyw oedolyn sy'n dysgu, unrhyw un sy'n dychwelyd i ddysgu yn gallu sefyll y cymwysterau hyn drwy'r llwybrau arferol.

Rwy'n credu y byddai'n fuddiol i gyflogwyr fod â phobl sy'n meddu ar y wybodaeth ehangach hon yn eu sefydliadau. Mae'n rhaid i bob un ohonom ymateb i heriau cynaliadwyedd, ac mae'n rhaid i bob un ohonom ymateb yn briodol. Nid un person yn unig ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod sefydliad neu gyflogwr yn gwneud y pethau cywir yn y ffordd gywir. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i ddiogelu'r dyfodol.

Rydym wedi cyflwyno'r cymwysterau hyn nawr oherwydd ein bod yn gallu gweld fod gwagle o ran cymwysterau o'r math hwn yn y farchnad. Oes, mae llawer o gymwysterau eraill gydag elfennau cynaliadwyedd, er enghraifft mae'r Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau hynny yn ein dysgwyr, ac rydym yn ymgorffori cynaliadwyedd i amrediad eang o gymwysterau ar lefel TGAU a Safon Uwch fel y gwyddorau. Ond, nid ydym wedi cael unrhyw beth yn y system sy'n annibynnol, rhywbeth sy'n canolbwyntio'n llwyr ar gynaliadwyedd.

Daeth y cyfle i weithio gyda phartneriaid, ac yn arbennig i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac roeddem yn falch iawn o fod yn rhan o'r drafodaeth honno. Yn CBAC rydym yn gweld hyn fel cynnig unigryw, yn enwedig yng Nghymru.

Rydym wedi manteisio ar y cyfle a roddwyd i ni, ac unwaith eto mae'r cyfle hwnnw i weithio gyda phartneriaid allweddol eraill ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac eraill yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni gymryd cam mawr ymlaen – nid cam bach ymlaen yw hwn, mae hwn yn gam mawr ymlaen.

O'r herwydd rydym yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o gyflogwyr ac amrediad o bobl eraill o fewn cymdeithas sy'n deall yr hyn sy'n digwydd ni.

Rwy'n credu y gallai byrddau eraill, yn enwedig yn Lloegr, ymuno ar ryw adeg ymhellach yn y dyfodol gyda chymwysterau tebyg, ond rwy'n falch iawn mai ni yw'r cyntaf o'r fath.

Y peth pwysig arall i'w grybwyll yw'r ffordd y mae'r cymwysterau hyn wedi'u datblygu. Nid yw'n ymwneud â gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn unig. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chyflogwyr, ac rydym wedi gweithio gyda cholegau addysg bellach i sicrhau ein bod yn gallu cael yr holl wybodaeth gywir i ddechrau ar gyfer y drafodaeth.

Yr hyn yr ydym am ei wneud yw darparu rhywbeth y gall dysgwyr gael mynediad hawdd ato. Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw sicrhau ein bod yn gallu ymateb i anghenion a dyheadau ein holl randdeiliaid allweddol.